**Argymhellion y Grŵp Craffu Cyfalaf** **Atodiad 2**

Roedd ceisiadau a gyflwynwyd i'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn gyffredinol yn unol â'r dyraniadau bloc a gytunwyd eisoes ar gyfer gwasanaethau, ac eithrio'r dyraniad bloc Eiddo a benthyca darbodus Priffyrdd, fel a nodir yn y prif adroddiad. Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu achos busnes i gefnogi eu ceisiadau.

Cyflwynwyd pob cais gyda chymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Ceir manylion am y dyraniadau arfaethedig yn Atodiad 1 ac mae crynodeb ohonynt fel a ganlyn:

- Mae dyraniad o £240,000 yn cael ei argymell ar gyfer Mân Addasiadau, Offer Cymunedol a Theleofal. Targedir y cyllid hwn at alluogi'r henoed a phobl anabl i aros yn eu cartrefi eu hunain.

- Y bwriad yw dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi Cymorth Tai Sector Preifat. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio'n bennaf ar ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

- Mae cynigion cyfalaf cynnal a chadw ysgolion ac adeiladau nad ydynt yn ysgolion yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol fel cael gwared ar asbestos, gwaith asesu risg tân, cydraddoldeb ac ati. Argymhellir bod £1.5 miliwn yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwaith cynnal a chadw cyfalaf ysgolion. Bwriedir hefyd dyrannu £1.368 miliwn i waith cynnal a chadw cyfalaf adeiladau nad ydynt yn ysgolion. Argymhellir ymhellach bod y Penaethiaid Gwasanaeth priodol yn pennu union ddyraniadau i'r gwaith penodol sydd eu hangen, yn nhrefn blaenoriaeth.

- Gofynnwyd i'r Cyngor ar 30 Ionawr 2024 gymeradwyo £150,000 o gyllid cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf ar Briffyrdd fel rhan o Fuddsoddiad mewn Blaenoriaethau 2024/25. Bydd hyn yn caniatáu gwariant cyfalaf o £2.000 miliwn.

- Yn ogystal â hyn, bwriedir dyrannu dyraniad bloc o £710,000 ar gyfer atgyweiriadau strwythurol ac atgyweiriadau eraill, gan gynnwys cynnal a chadw priffyrdd, goleuadau stryd a phontydd. Hefyd wedi'i gynnwys o fewn yr argymhelliad hwn mae £470,000 pellach ar gyfer atgyweirio strwythurau pont. Dyma wythfed flwyddyn Project Ôl-Groniad Strwythur Priffyrdd deng mlynedd.

- Argymhellir dyraniad o £324,000 i gynnal gwelliannau o ran diogelwch ar y ffyrdd.

- Y bwriad yw dyrannu £250,000 o'r rhaglen dreigl pedair blynedd £1 miliwn i ariannu'r gwaith blynyddol o adnewyddu bwrdd gwaith a nifer o brosiectau eraill er mwyn cynnal isadeiledd TGCh y Cyngor. Caiff Blwyddyn 2 i 4 eu hadolygu yn 2024/25.

- Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn argymell cynnal y dyraniad a neilltuwyd ar gyfer unrhyw argyfyngau annisgwyl, sef £0.5 miliwn, yn unol â 2023/24.